Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA698 - Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) 2016

Cefndir a Phwrpas

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 2 (dyfroedd wyneb yng Nghymru) i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ("y Rheoliadau"), sy'n rhestru'r dyfroedd a nodwyd gan Weinidogion Cymru fel dyfroedd ymdrochi yng Nghymru. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu Traeth Gwledig Aberdyfi at y rhestr o ddyfroedd ymdrochi a nodwyd yn y Rheoliadau.

Gweithdrefn

Negyddol

Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Craffu ar rinweddau

Nodwyd y pwynt canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Pan fydd adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn cael ei ddefnyddio yn awdurdod i wneud rheoliadau, caiff Gweinidogion Cymru ddewis pa weithdrefn i'w ddefnyddio yn y Cynulliad. Yn yr achos hwn, dewiswyd yr weithdrefn negyddol. Gan fod y Rheoliadau hyn yn mewnosod un traeth i restr hir o draethau sy'n ddyfroedd ymdrochi, ystyrir bod hyn yn ddefnydd priodol o'r weithdrefn negyddol.

[Sef ei fod yn codi mater o bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad – Rheol Sefydlog 21.3(ii)]

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth 2016 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt rhinweddau uchod.